



Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad Sistema Cymru – Codi'r To

Eira Winrow and
Rhiannon Tudor Edwards



Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CHEME ym Mhrifysgol Bangor

<http://cheme.bangor.ac.uk/index.php.cy>

Sefydlwyd y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) yn 2001, a bellach mae'n un o'r canolfannau economeg iechyd mwyaf blaenllaw yn y Deyrnas Unedig. Nod CHEME yw hyrwyddo a chynnal ymchwil economeg iechyd o ansawdd uchel, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ennill grantiau ymchwil a chyhoeddi mewn cyfnodolion pwysig. Mae'r Ganolfan yn weithgar mewn nifer o weithgareddau ymchwil ym maes economeg iechyd a gwerthuso meddyginiaethau sy'n cynnwys economeg iechyd y cyhoedd ac economeg iechyd ymyriadau seicogymdeithasol a thechnolegau iechyd anffarmacolegol eraill dan arweiniad yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, a ffarmacoeconomeg, polisi fferyllol a defnydd meddyginiaethau, dan arweiniad yr Athro Dyfrig Hughes.

Yr Adroddiad Hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwerthusiad o Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad rhaglen Codi'r To, sef rhaglen sy'n cyflwyno cerddoriaeth mewn ysgolion. Mae'r adroddiad wedi ei ysgrifennu ar gyfer cynulleidfau sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y trydydd sector, ysgolion, rhieni a phlant.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i fwrdd Codi'r To am eu hadborth gwerthfawr ar hyd y daith, a hoffai Codi'r To ddiolch i Sefydliad Paul Hamlyn am gyllido'r ymchwil hwn.

Dylem gydnabod hefyd y gefnogaeth a gawsom gan ein cydweithwyr yn CHEME; Huw Lloyd Williams am sefydlu'r astudiaeth, Llinos Haf Spencer am gynnal cyfweiliadau gyda phenaethiaid trwy gyfrwng y Gymraeg, a Bethany Anthony am ei chefnogaeth yn mewnbynnu data.

Mae ein diolch i ddisgyblion a staff y tair ysgol fu'n cymryd rhan, Ysgol Maesincla, Caernarfon, Ysgol Glan Cegin, Bangor ac Ysgol Llanfawr, Caerdybi.

Diolch i ddisgyblion Ysgol Maesincla ac Ysgol Glan Cegin am y lluniau a'r ffotograffau arbennig sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn, ac i'w rhieni am roi caniatâd i ni eu defnyddio.

Dyluniwyd yr adroddiad gan Tom Pollock yn Excellent Design: www.excellentcreative.co.uk



Dyfyniad gan riant

Ffordd wych o ddysgu
plant i gydweithio.
Ffantastig!

Dyfyniad gan riant

Mae fy mab wedi
mwynhau'n ofnadwy
ac mae o erbyn hyn
yn trio dysgu ei hun i
ddarllen cerddoriaeth

Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL.....	4
RHAGARWEINIAD	5
CODI'R TO	5
TLODI PLANT YNG NGHYMRU.....	6
EFFEITHIAU LLESOL CERDDORIAETH MEWN YSGOLION	7
TORIADAU I GERDDORIAETH MEWN YSGOLION.....	8
BETH RYDYM EISOES YN EI WYBOD	9
CANFYDDIADAU CYNLLUN PEILOT YNG NGOGLEDD CYMRU.....	10
DADANSODDIAD O'R ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD.....	12
BUDD-DDEILIAID	13
DISGRIFIAD O'R YSGOLION	14
THEORI NEWID	16
MEWNBYNNAU.....	19
CANLYNIADAU A THYSTIOLAETH	20
EFFAITH	23
ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD.....	24
DADANSODDIAD SENSITIFRWYDD	25
CASGLIAD.....	26
ATODIAD: MAP EFFAITH ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD	27
CYFEIRIADAU	28





Dyfyniad gan riant

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad o Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad rhaglen Codi'r To, sy'n cyflwyno cerddoriaeth mewn ysgolion yng Ngogledd Cymru.

Dull ymchwil yw Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad sy'n gadael i ni fesur gwahanol werthoedd y rhaglen gyda gwahanol fudd-ddeiliaid, er mwyn i ni gael gweld beth yw'r manteision neu'r anfantaision sy'n cael effaith gymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol.

Mae Codi'r To yn darparu sesiynau cerddoriaeth mewn dwy ysgol mewn cymdogaethau difreintiedig ym Mangor a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae'r project yn seiliedig ar ddull El Sistema.

Rydym wedi ystyried ystod o fudd-ddeiliaid a allai brofi newid cadarnhaol neu negyddol y gellid ei briodoli i raglen Codi'r To:

- Disgyblion sy'n cymryd rhan
- Teuluoedd
- Yr ysgol yn ehangach
- Y gymuned
- Codi'r To

Fe dynnom sylw'r budd-ddeiliaid at y manteision canlynol:

- Roedd y disgyblion wedi magu hyder, roedden nhw'n ymddwyn yn well gyda'u cyd-ddisgyblion, ac maen nhw wedi cael diddordeb mewn cerddoriaeth
- Roedd gan deuluoedd y disgyblion well perthynas â'r ysgol ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned
- Gwelodd yr ysgol yn ehangach well ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth ac roedd y disgyblion yn ymwneud â'i gilydd yn well
- Roedd gwell perthynas rhwng yr oedolion a'r plant yn y gymuned

Er mwyn pennu gwerth ariannol i'r manteision hyn, fe ddefnyddiom brocsis ariannol o'r Global Value Exchange a The HACT Social Value Bank er mwyn gallu cyfrifo beth yw gwerth y manteision hyn.

Fe newidiom y rhagdybiaethau a wnaethom ynglŷn â gwerth y manteision trwy amrywio rhai elfennau o'r cyfrifiad megis llwyth, gollyngiad a phriodoliad, er mwyn gallu cynhyrchu ystod o werthoedd cymdeithasol.

Mae'r gwerthusiad o'r adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad yn dangos bod rhaglen Codi'r To wedi bod yn effeithiol wrth greu gwerth cymdeithasol i'r budd-ddeiliaid. Gwelsom fod cyfanswm yr adenillion gwerth cymdeithasol wedi'i rannu fel a ganlyn, 48% i'r disgyblion, 51% i'w teuluoedd, 0.2% i'r ysgol yn ehangach, a 0.8% i'r gymuned.

Dros gyfnod o dair blynedd gwelsom fod Codi'r To wedi cynhyrchu gwerth cymdeithasol sydd rhwng £4.49 ac £8.95 am bob punt a gafodd ei buddsoddi.

Gan ddefnyddio rhagdybiaethau gorau ein hymchwil, am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi, fel achos sylfaen, caiff gwerth cymdeithasol o £6.69 ei greu.

Mae hyn yn golygu cymhareb o ran Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o **£6.69: £1**

Mae o'n weithgaredd da i'r plant fod yn rhan ohono fo. Mae o'n magu eu hyder nhw ac maen nhw'n ei fwynhau o hefyd.

Dyfyniad gan riant

Mae Codi'r To wedi helpu fy merch i fwrw'i swildod. Mae hi'n teimlo mor gyffrous yn cael cymryd rhan a thrafod be mae hi wedi llwyddo'i wneud ar ôl y sesiynau; diolch i chi am eich holl waith.

Mae Codi'r To wedi bod yn rhan mor rhyfeddol o fywyd fy merch gan ei fod o, i raddau, wedi ei helpu hi i wrando a dysgu, ac mae o'n ei helpu hi hefyd efo'i thymor. Mae o'n ei thawelu hi. Diolch yn fawr.



Mae hi wedi magu hyder ac mae hi rwan yn gwneud lot efo pobl eraill.

RHAGARWEINIAD

Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar effaith rhaglen Codi'r To yng Ngwynedd. Nod Codi'r To yw mynd i'r afael ag anfantais a chyrhaeddiad addysgol mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog er lles y plant, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Mae'r data a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i ddadansoddi a'i gyflwyno ar ffurf dadansoddiad o Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.

CODI'R TO

Project adfywio cymunedol yw Codi'r To gyda'r bwriad o wella canlyniadau addysgol a llesiant plant mewn dwy gymuned yng Ngwynedd sy'n wynebu heriau economaidd-gymdeithasol. Mae'n seiliedig ar El Sistema a ddatblygwyd yn Venezuela, a chafodd ei gymhwyso i gyd-destun Cymru ar ôl cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn sawl ardal ddifreintiedig yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae'r dull wedi ei seilio ar weledigaeth glir, sef bod gan gerddoriaeth y pŵer i drawsnewid bywydau ifanc trwy uno cymunedau a meithrin gwerthoedd pwysig sy'n ymwneud â chydlyniant cymdeithasol. Prif amcan holl brojectau El Sistema yw cyflawni newid cymdeithasol trwy gerddoriaeth. Credir bod y disgyblion, trwy ddatblygu rheolaeth dros eu cerddoriaeth ynghyd â'r ddisgyblaeth y mae hynny'n ei olygu, hefyd yn cael cyfle i wella eu gallu'n gymdeithasol. Mae ymrwymiad ac ymroddiad i'r gerddorfa wedi bod yn un o nodweddion canolog El Sistema a gwelwyd bod ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a llwyddiant cerddorol wedi bod yn ysgogol iawn.

Mae Codi'r To yn defnyddio cerddorion proffesiynol i gyflwyno rhaglen o sesiynau cerddoriaeth i 282 o ddisgyblion o wahanol oedrannau mewn dwy ysgol. Mae'r rhaglen yn cynnwys chwarae mewn band samba a band pres, sesiynau cerddoriaeth a symud gan ddefnyddio egwyddorion Dalcroze Eurhythmics, a sesiynau crefft gerddorol. Mae'r plant yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cyngherddau yn yr ysgol, mewn theatrau lleol, a hyd yn oed yn eu cartrefi eu hunain. Caiff y sesiynau eu cyflwyno'n ystod y diwrnod ysgol, ond hefyd fel sesiynau allgyrsiol ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau.

TLODI PLANT YNG NGHYMURU

Yng Nghymru, mae 29% o blant yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn golygu eu bod yn byw mewn teuluoedd sydd ag incwm sy'n llai na 60% o'r canolrif incwm cenedlaethol (Plant yng Nghymru, 2016).

O'r teuluoedd a gymerodd ran yn arolwg Plant yng Nghymru, dywedodd 97% fod costau byw yn broblem iddynt, a dywedodd 100% fod y newidiadau diwygio lles wedi cael effaith negyddol sylweddol ar eu bywydau. Yn yr arolwg hwn, roedd tlodi bwyd yn effeithio ar 95% o deuluoedd, ac roedd gan 98% broblemau oherwydd dyledion ariannol hefyd (Plant yng Nghymru, 2016).

Mynegodd yr ymatebwyr bryder hefyd am y toriadau i gyllideb gwasanaethau cymunedol, megis canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a Home Start (elusen sy'n cefnogi teuluoedd); pethau sydd i gyd yn wasanaethau sy'n adnoddau gwerthfawr i deuluoedd ledled Cymru.

Mae cyswllt arwyddocaol rhwng tlodi a thangyflawni addysgol. Mewn adroddiad yn 2012, cydnabu Estyn, arolygiaeth ysgolion Cymru, y gall ysgolion chwarae rhan bwysig wrth wella cyfleoedd bywyd plant o gefndiroedd difreintiedig, er nad oes strategaeth ar waith i sicrhau bod pob ysgol yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n cael eu gwaethygu gan dlodi ac anfantais (Estyn, 2012).

Canfyddiad adroddiad 'Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth' (The Warwick Commission, 2015) oedd bod plant mewn teuluoedd incwm isel yn llai tebygol o ymwneud â'r celfyddydau a'u gwerthfawrogi ac yn llai tebygol o fynd ymlaen i ymwneud â'r diwydiannau creadigol ar ôl ysgol. Gwelodd ymddiriedolaeth Sutton nad yw gweithgareddau allgyrsiol a allai gynnwys elfennau celfyddydol a diwylliannol yn aml o fewn cyrraedd plant o deuluoedd incwm isel oherwydd eu bod yn costio cymaint. Dywedodd 76% o'r rhieni a wnaeth ymateb i'r arolwg fod eu plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, ond roedd 22% o rieni mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn gwario mwy na £500 y flwyddyn ar y gweithgareddau hyn o'i gymharu â 10% o rieni mewn grwpiau canolig ac is. Efallai mai rhaglenni megis Codi'r To mewn ysgolion yw'r unig gyfle y bydd llawer o blant o deuluoedd difreintiedig yn ei gael i gael mynediad at weithgareddau creadigol.



Dyfyniad gan riant

Am brofiad gwych i'r plant. Daliwch ati. Diolch. Arbennig.



Dyfyniad gan riant

Ffordd wych o fagu hyder plant i berfformio.

Mae o'n wych i blant.

EFFEITHIAU LLESOL CERDDORIAETH MEWN YSGOLION

Daeth adolygiad o'r dystiolaeth am effaith cerddoriaeth ar ddatblygiad plant ifanc o hyd i ymchwil o astudiaethau ym maes seicoleg ac addysg a oedd yn edrych ar effaith cerddoriaeth ar gyrhaeddiad addysgol, datblygiad iaith, rhifedd, llythrennedd, hyder, canolbwyntio, sgiliau cymdeithasol a mwy. Mae'r adolygiad yn awgrymu y gellir cael effaith gadarnhaol o ennyn diddordeb plant mewn cerddoriaeth, ond dim ond os yw'r profiad yn bleserus ac yn werth chweil (Hallam, 2010).

Cafwyd tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod modd datblygu sgiliau gwranddo plant mewn addysg brif ffrwd a phlant ag anawsterau dysgu trwy gynnig darpariaeth gerddorol effeithiol (Hirt-Manner, 1995), a gwelwyd bod pa mor gyflym y gall ymennydd plentyn 8 oed brosesu iaith yn gwella ar ôl dilyn rhaglen gerddoriaeth am 8 wythnos o gymharu â phlant sydd ddim yn cymryd rhan mewn sesiynau cerddoriaeth (Moreno a Besson, 2006). Roedd sgiliau darllen plant 7-8 oed yn cael eu monitro am 6 mis, ac fe wellodd sgiliau darllen y plant a oedd yn cael sesiynau cerddoriaeth tra oedd sgiliau darllen y plant yn y grŵp rheolydd na fuont yn rhan o'r sesiynau cerddoriaeth wedi aros fel yr oeddent (Douglas a Willatts, 1994).

Gwelodd astudiaeth yn yr Unol Daleithiau yn 2002 fod disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth allgyrsiol yn cyfathrebu mwy gydag athrawon a rhieni, a bod y rhieni yn ffurfio rhwydweithiau ymhlith ei gilydd (Broh, 2002). O ran iechyd a llesiant, mae ymchwil sy'n awgrymu y gall chwarae offeryn effeithio ar sgiliau echddygol manwl (Schlaug et al., 2005), ac mae ymchwil a wnaed yn 2002 wedi canfod bod bechgyn rhwng 10 ac 14 oed sy'n canu mewn côr cymunedol yn elwa'n gymdeithasol, yn ysbrydol ac yn emosiynol, ac roedd effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant (Ashley, 2002).

Dwi'n meddwl fod y rhaglen yn wych ac mae fy mab yn teimlo ei fod o wedi cyflawni rhywbeth, mae o wedi magu hyder ac mae o'n teimlo ei fod o'n rhan o dîm.





Dyfyniad gan riant

TORIADAU I GERDDORIAETH MEWN YSGOLION

Yn draddodiadol roedd gwersi cerddoriaeth peripatetig yn cael cymhorthdal gan lywodraeth leol, ond wrth i gynghorau orfod torri eu cyllidebau i wneud yn iawn am y diffyg ariannol y maent yn ei wynebu, mae eu gallu i ddarparu cerddoriaeth i bob disgybl dan fygythiad. Yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam wedi cyhoeddi na allant mwyach ariannu cerddoriaeth mewn ysgolion. Yn dilyn gorfod torri £52m oddi ar y gyllideb ers 2008, mae'r cyngor wedi cynnig y dylai ysgolion dalu am ddarpariaeth cerddoriaeth o'u cyllidebau tyn eu hunain, gan nad yw'r cyngor mewn sefyllfa i gynnig unrhyw gymorth ariannol (Cyngor Bwrdeistref Wrecsam, 2017). Cafwyd gwrthwynebiad ffyrnig i'r penderfyniad, ac adleisiwyd hynny mewn arolwg a gynhaliwyd yng Nghymru yn gofyn i'r cyhoedd ddewis pwnc a ddylai gael blaenoriaeth. Canlyniad i'r arolwg hwnnw oedd ymchwiliad i'r cyllid sy'n cael ei neilltuo ar gyfer addysg gerddorol a mynediad ati, gan ddangos bod gwarchod cerddoriaeth mewn ysgolion yn bwysig i'r cyhoedd (Senedd, 2016). Mae cyllidebau ysgolion o dan bwysau i'r un graddau â chyllidebau'r cyngor, ac mae penaethiaid yn wynebu'r her o reoli cyllidebau cyfyngedig wrth fuddsoddi mewn gwasanaethau allanol. Nid yw cerddoriaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiadau arolygu ysgolion a gynhyrchir gan Estyn, gan nad oes disgwyliad gan lywodraeth ganolog i ysgolion cynradd ddarparu cerddoriaeth. Dywedwyd yng ngwrandawriad un o bwyllgorau Cynulliad Cymru yn 2017 fod diffyg cyllid canolog ar gyfer cerddoriaeth mewn ysgolion yn niweidiol i bobl ifanc dalentog sydd â'r gallu a'r dyhead i ddatblygu eu talentau ymhellach. Dywedodd cynrychiolydd ar ran Cerdd NPT Music wrth y pwyllgor y byddai gwneud cerddoriaeth yn rhan o'r broses arolygu ysgolion yn sicrhau bod ysgolion yn cymryd darparu cerddoriaeth o ddifri, ond y byddai'n rhaid talu am hynny o hyd yn bennaf o gyllidebau ysgolion unigol (Arts Professional, 2017).

Canfu astudiaeth gan Brifysgol Sussex (2017), astudiaeth y bu athrawon cerddoriaeth ysgolion uwchradd yn Lloegr yn rhan ohoni dros gyfnod o bum mlynedd, fod gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion TGAU sy'n dilyn pynciau celfyddydol. Bu gostyngiad yn nifer yr ysgolion sy'n cynnig BTEC mewn Cerddoriaeth o 166 yn 2012/13 i ddim ond 50 yn 2016/17, a thra bod 85% o ysgolion yn cynnig TGAU Cerddoriaeth yn 2012/13, 79% oedd yn cynnig yr un cymhwyster yn 2016/17. Roedd cerddoriaeth yn bwnc gorfodol i blant 13-14 oed mewn 84% o ysgolion yn 2012/13, ond roedd hynny wedi gostwng i 62% yn 2016/17. Ar hyn o bryd, mae cerddoriaeth yn dal yn orfodol hyd at 14 oed yn ysgolion Cymru.



Mae hwn yn gyfle gwych i blant ddysgu am gerddoriaeth ac offerynnau cerdd. Bechod nad ydy POB plentyn yn cael yr un cyfle.

Dyfyniad gan riant

Dyma ffordd wych o ddysgu plant i gydweithio. Mae o'n grŵp gwych.

Roedd hi'n wych gweld agwedd y plant a'r olwg ar eu hwynebâu nhw pan ddaethon nhw i mewn a gweld criw Codi'r To yn sefyll yno. O!

- Mae o'n broject anhygoel - wir yr! Maen nhw wrth eu boddau ac yn dweud 'Iei, dan ni'n cael mynd i weld Codi'r To heddiw!

Mae o wedi gwella rhywfaint ar hyder fy mab i achos mae o'n eithaf swil.

BETH RYDYM EISOES YN EI WYBOD

Sefydlodd Sistema'r Alban y 'Big Noise Children's Orchestra' yn Stad Raploch yn Stirling yn 2008. Cafodd yr adroddiad gwerthuso cyntaf ei gynhyrchu yn 2011 gan Garnham et al., ar gyfer adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth yr Alban, gan edrych ar fanteision y rhaglen i blant, eu teuluoedd, y gymuned ac o ran y canlyniadau ehangach yn genedlaethol. Mae rhaglen The Big Noise yn cynnal sesiynau gyda phlant dair gwaith yr wythnos yn ystod y tymor, a bum diwrnod yr wythnos yn ystod y rhan fwyaf o'r gwyliau ysgol. Mae'r rhaglen yn cynnig lluo o weithgareddau sydd, ym marn Sistema'r Alban, yn hanfodol er mwyn trochi'r plant yn strwythur a systemau cefnogaeth y rhaglen. Nod cyffredinol y rhaglen yw bod yn hyblyg ac yn gynhwysol, a gallant gynnig cefnogaeth un-i-un i blant ag ymddygiad heriol, er enghraifft.

Mae Big Noise wedi gweithio gydag 80% o blant Stâd Raploch yn ystod y tymor, a gyda 65% o'r plant cymwys fel rhan o'r rhaglen yn ystod gwyliau'r ysgol. Edrychodd Harkins et al., (2016) ar fanteision project Big Noise Sistema'r Alban o ran iechyd meddwl a llesiant. Fel rhan o'r gwerthusiad ansoddol hwn cynhaliwyd cyfweiliadau, arsylwadau, a gweithgareddau celf a chynhyrchwyd fflmiau i asesu unrhyw effaith a gafodd y project. Gwelodd yr astudiaeth fod tair prif effaith ar les meddyliol ac emosiynol y cyfranogwyr, sef; 'hapusrwydd a'r mwynhad o gymryd rhan yn y rhaglen a'r gerddorfa'; 'meithrin ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn a chreu cysylltiadau trwy gymryd rhan'; a 'mwy o falchder, hyder a hunan-barch'. Mae'r astudiaeth hefyd yn nodi nad yw ymyriadau celfyddydol megis Big Noise, yn eu barn nhw, wedi cael eu gwerthuso'n ddigonol yn y gorffennol, ac maent yn awgrymu nad yw effaith rhaglenni megis Big Noise yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn (Harkins et al., 2016).

Wrth fyfyrion ar eu hastudiaeth o'r rhaglen Big Noise, mae Garnham a Campbell (2017) yn trafod natur gymhleth gwerthuso projectau celfyddydol sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau cymdeithasol, megis ysgolion. Maent yn awgrymu bod y mathau hyn o raglenni'n aml yn cael eu cymharu â rhaglenni nad ydynt yn rhai celfyddydol, a phan awgrymir bod manteision a allai effeithio ar iechyd y cyhoedd, bydd yr ymchwilwyr yn aml yn cael eu herio i brofi eu canfyddiadau'n fwy cadarn (Garnham a Campbell, 2016). Eu casgliad yw awgrymu bod modd cyfiawnhau gwerthuso a gwneud ymchwil pellach i raglenni fel Big Noise neu Codi'r To oherwydd y posibilrwydd y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac effeithiau ehangach ar iechyd. Maent hefyd yn cynnig bod cyfle i ailystyried beth yw ein disgwyliadau o ymyriadau celfyddydol a sut rydym yn eu gwerthuso fel ymchwilwyr.

CANFYDDIADAU CYNLLUN PEILOT YNG NGOGLEDD CYMRU

Cynhyrchwyd adroddiad cwmpasu cychwynnol gan CHEME mewn cydweithrediad â Codi'r To yn 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnig trosolwg byr o'r rhaglen bryd hynny. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar werthoedd hyder a hapusrwydd, a barn y budd-ddeiliaid am effeithiau cadarnhaol y rhaglen.

Dim ond y plant a gafodd eu hystyried fel budd-ddeiliaid fel rhan o'r adolygiad cwmpasu hwn. Awgrymodd yr awduron y dylid cynnal ymchwil pellach yn y dyfodol wrth i'r project ddatblygu, ac y dylid gwneud hynny dros gyfnod hirach o amser er mwyn casglu'r data sydd ei angen i archwilio effaith y rhaglen.



Dyfyniad gan riant

**Mae'n wych fod plant
yn cael dysgu chwarae
offerynnau**

Dyfyniad gan riant

**Mae Codi'r To'n
wych. Mae hi wir yn
mwynhau.**

Gwerthusiad Economaidd y Prosiect Sistema Cymru - Codi'r To yng Ngogledd Cymru Eira Winrow & Prof. Rhiannon Tudor Edwards

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Moddion, Prifysgol Bangor
e.winrow@bangor.ac.uk (01248) 383201

BETH YW CODI'R TO?

- Mae prosiect adfywio cymunedol wedi'i anelu at wella canlyniadau addysgol a lles ar gyfer plant o ddwy gymuned yng Ngwynedd.
- Mae'n seiliedig ar syniad a ddatblygwyd yn Venezuela
- Prif amcan y prosiectau El Sistema yw cyflawni newid cymdeithasol trwy gerddoriaeth
- Mae'n ymdrechu i ddog â theuluoedd a chymunedau, ynghyd â rhieni sy'n mynychu ymarferion
- Y potensial i wella disgybl cymhelliant a chryfhau cymunedau



AMCANION YR YMCHWIL

- Nodi a yw'r rhaglen Codi'r To yn gost-effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian. Mae'r canlyniadau i'w harchwilio yn cynnwys:
- Newidiadau mewn absenoldebau ysgol / triwantiaeth
- Cyrhaeddiad addysgol
- Newidiadau mewn lles plentyn

Newidiadau yn yr hyder a'r sgiliau trosglwyddadwy y plant

Newidiadau mewn trafferthion yn yr ystafell ddosbarth

Lefel yr ymgysylltu a'r gymuned

DULLIAU

- Mae dulliau cymysg ymagwedd at archwilio effeithiolrwydd y Rhaglen Codi'r To
- Bydd data ar gyfer y gwerthusiad effeithiolrwydd yn cael ei gasglu trwy gyfrwng ymddygiad, lles, a chryfderau a holiaduron anhawster
- Bydd y data yn cael ei gasglu o sampl ar hap o'r plant yn cymryd rhan yn y rhaglen ac o ysgol reoli ar gyfer cymhariaeth
- Bydd Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) dadansoddiad hefyd yn cael ei gynnal i ystyried effaith economaidd ar gyfer amrywiaeth o randdeiliaid
- Bydd y data ar gyfer y dadansoddiad hwn yn cael ei chasglu drwy gostau prosiect, costau rhagamcanol ar gyfer y dyfodol, a chyfweiliadau ansoddol gyda'r rhanddeiliaid. Bydd y dulliau hyn a gynigir yn ein galluogi i ddangos y ddau effeithiolrwydd a gwerth am arian Codi'r To fel ymyriad.

GWERTHUSO

Byddwn yn dadansoddi'r data i ymchwilio i'r gwahaniaethau (os o gwbl) mewn canlyniadau rhwng y grwpiau ymyrraeth a rheolaeth yn y man cychwyn a dilyn i fyny i weld os bu unrhyw welliant mewn canlyniadau y gallwn briodoli i Codi'r To.

- Bydd dadansoddiad SROI yn cael ei gynnal i gymhwyso gwerth ariannol i'r canlyniadau. Bydd y rhain yn buddiannau ariannol yn cael eu cymharu â chyfanswm y gost o weinyddu a rhedeg y prosiect Codi'r To
- Byddwn yn dangos y gwerth cymdeithasol a gynhyrchir o bob £ a wariwyd ar y prosiect.
- Fel rhan o'r astudiaeth hon, byddwn hefyd yn perfformio dadansoddiad ansoddol. Bydd cyfweiliadau lled-strwythuredig yn cael eu cynnal gyda'r rhanddeiliaid allweddol a'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad terfynol.




Dyfyniad gan Bennaeth

DADANSODDIAD O'R ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD

Aethom ati i asesu effeithiolrwydd rhaglen Sistema Cymru - Codi'r To wrth ymdrechu i wella canlyniadau ar gyfer plant a'r gymuned. Fe wnaethom ystyried effaith economaidd Codi'r To ar ystod o fudd-ddeiliaid yn defnyddio methodoleg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.

Mae methodoleg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yn ein galluogi i fesur ystod eang o werthoedd y rhaglen ar draws yr hyn a elwir yn 'linell waelod driphlyg' sy'n cwmpasu effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yn edrych ar ystod o 'fudd-ddeiliaid' sy'n rhan o'r rhaglen neu y mae'r canlyniadau'n effeithio arnynt. Byddwn yn asesu'r adnoddau neu'r 'mewnbynnau' sydd wedi cael eu neilltuo i'r rhaglen, y 'meganweithiau' sy'n cael eu defnyddio i weithredu'r rhaglen, a 'chanlyniadau' y rhaglen.



Dyfyniad gan riant

Mae o'n gyfle gwych i'r plant.

Mae Codi'r To wedi helpu fy merch i fwrw'i swildod. Mae hi'n teimlo mor gyffrous yn cael cymryd rhan a thrafod be mae hi wedi llwyddo'i wneud ar ôl y sesiynau; diolch i chi am eich holl waith.

BUDD-DDEILIAID

Er mwyn archwilio gwerth Codi'r To, fe wnaethom nodi pa fudd-ddeiliaid sy'n elwa o'r rhaglen. Gellir diffinio budd-ddeiliaid fel y bobl neu'r sefydliadau sy'n profi newid cadarnhaol neu negyddol y gellir ei briodoli i'r gweithgaredd, i'r rhaglen neu i'r ymyriad sy'n cael ei werthuso (Swyddfa'r Cabinet, 2009).

At ddibenion ystyried beth yw Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad y project hwn, rydym yn ystyried y newid positif neu negyddol o ran:

- Y DISGYBLION SY'N CYMRYD RHAN - oherwydd nhw yw buddiolwyr uniongyrchol y rhaglen hon
- EU TEULUOEDD - oherwydd bydd unrhyw newidiadau o ran y disgyblion yn effeithio arnynt yn y cartref, ac mae angen cefnogaeth gan y teulu i gymryd rhan yn y rhaglen
- YR YSGOL YN EHANGACH - oherwydd bydd newidiadau o ran y disgyblion yn effeithio ar aelodau eraill o gymuned yr ysgol
- Y GYMUNED - oherwydd bydd newidiadau o ran y disgyblion yn effeithio ar yr hyn maen nhw'n ei wneud yn y gymuned
- CODI'R TO - oherwydd mai nhw sy'n ariannu ac yn trefnu'r rhaglen

Mae'n wych bod y plant wrth eu boddau ac mae'n eu dysgu nhw i gydweithio a dysgu sgiliau newydd.





Dyfyniad gan riant

DISGRIFIAD O'R YSGOLION

Yn wreiddiol, cafodd y cynllun ei gyflwyno i bob disgybl ym mlynnyddoedd 3 a 4 mewn dwy ysgol yng Ngwynedd, sef Maesincla yng Nghaernarfon a Glancegin ym Mangor. Mae'r cynllun yn parhau i weithio gyda'r plant wrth iddynt symud trwy'r blynnyddoedd ysgol, ac mae wedi cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion y blynnyddoedd cynnar o oedran meithrin i fyny. Ysgol gymunedol yw Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, stâd fawr o dai ar gyrion Bangor. Caiff yr ardal ei hystyried fel ardal sydd dan anfantais gymdeithasol ac mae wedi ei dynodi yn ardal 'Cymunedau yn Gyntaf' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dros 97% o ddisgyblion yr ysgol yn byw mewn ardal sydd ymysg yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae 42.3% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim, ac mae 41.3% ar y gofrestr anghenion ychwanegol. Mae'r rhain yn ganrannau sylweddol uwch na chyfartaledd Gwynedd a Chymru (Estyn 2013). Mae Ysgol Maesincla, Caernarfon, hefyd wedi'i lleoli mewn ardal o anfantais economaidd sylweddol sydd wedi'i dynodi yn ardal Amcan Un. Mae'r holl ddisgyblion yn byw mewn ardal sydd ymysg yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gan 44% o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim (Estyn 2011).

Mae diweithdra'n uchel yn y ddwy ward, gyda chyfartaledd o 14.2% o gymharu â 5.5% yng Ngwynedd a chanran genedlaethol o 6.5% yng Nghymru. Gwelir bod sylfaen sgiliau'r ddwy ardal hefyd yn isel, gyda chyfartaledd o 40.7% â sgiliau rhannol neu heb sgiliau o gymharu â chyfartaledd Gwynedd a Chymru sef 25.9% a 28.8% yn y drefn honno. Rhywbeth i sylwi arno mewn perthynas ag amcanion project Codi'r To yw'r ganran o bobl 16+ oed sydd heb gymwysterau, sef 41% a 35% ar gyfer wardiau Peblig a Marchog yn y drefn honno o gymharu â chyfartaledd Gwynedd o 23.2% a chyfartaledd Cymru o 25.9%. Mae'r diffyg cymwysterau hwn yn effeithio ar y sylfaen sgiliau ac ar gyfleoedd gwaith y trigolion ac yn arwain at incwm gwario isel ac adlewyrchir hynny yn y canrannau uchel o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol ac mewn aelwydydd di-gar. Mae afiechyd hefyd yn fwy cyffredin yn y ddwy ward na chyfartaledd Gwynedd yn gyffredinol, er bod cyfartaledd y rhai hynny sydd ag iechyd gwael / gwael iawn ychydig yn is yn Ward Peblig na chyfartaledd Cymru yn gyffredinol (Cyfrifiad 2011).



Dwi'n meddwl eich bod chi i gyd yn gwneud gwaith arbennig. Diolch yn fawr i bob un ohonoch chi.

Dyfyniad gan Bennaeth

Pa fanteision sydd i'r ysgol yn ei chyfanrwydd yn sgil Codi'r To? Mae pawb yn dod at ei gilydd ac yn mwynhau, - mae wedi codi'r hwyliau pawb rywsut.

Mae'n llawer o hwyl i'r plant ac yn rhoi cyfle iddyn nhw roi cynnig ar offerynnau na fyddan nhw byth mwy na thebyg yn cael cyfle i ddysgu eu chwarae nhw.

Er mwyn gallu mynd ati mewn modd effeithiol i asesu manteision posibl Codi'r To, roedd angen recriwtio ysgol 'rheolydd' nad oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen. Yn y modd yma, roeddem yn gallu casglu data gan blant yr un oed ac sydd mwy neu lai o'r un demograffig â'r plant sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ar hyn o bryd. Yr ysgol rheolydd, nad ydy hi'n elwa ar hyn o bryd ar raglen Codi'r To, yw Ysgol Llanfawr yn ward Morawelon, Caergybi, Ynys Môn. Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn stad fawr o dai o'r enw Morawelon, ardal sydd ag 13.3% o ddiweithdra o gymharu â 4.7% ar draws Ynys Môn (Cyfrifiad, 2011). Mae 43% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae gan 35% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (Estyn 2016). Mae 39.5% o drigolion y ward hon sydd yn 16+ oed wedi gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau o gymharu â 24.2% ar draws Ynys Môn. Mae rhannau helaeth o ardal Caergybi, gan gynnwys Morawelon, yn rhan o glwstwr Cymunedau yn Gyntaf mawr. Mae Morawelon yn rhif 168 o blith 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sef ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y wlad (WIMD, 2014).

Mae ein hysgol rheolydd a'n hysgolion ymyriad yn debyg iawn o ran demograffeg. Mae'r dair wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried fel ardaloedd sydd o dan anfantais gymdeithasol, ac mae'r dair mewn ardaloedd lle mae diweithdra uchel a lefelau uchel o bobl sydd wedi gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau.

Maen nhw'n ymddwyn yn well yn gyffredinol, ac yn ymddwyn yn dda efo athrawon eraill a phlant eraill.





Dyfyniad gan Bennaeth

THEORI NEWID

Mae'r Theori Newid yn amlinellu pa newidiadau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y budd-ddeiliaid yn y dadansoddiad hwn, a chafodd ei datblygu yn defnyddio nodau, amcanion a gweledigaeth sefydliad Codi'r To:

Nod:

Mynd i'r afael ag anfantais a thangyflawniad addysgol mewn dwy ardal o amddifadedd lluosog. Bod yn ysbrydoledig ac yn drawsffurfiol i blant, teuluoedd, ysgolion a chymunedau, gan newid bywydau er gwell trwy gerddoriaeth

Amcanion:

- Cefnogi cyfranogwyr wrth iddynt ddysgu sut i gredu yn eu gallu eu hunain a chydabod eu potensial eu hunain. Meithrin hyder, dyhead, balchder a hapusrwydd.
- Gwella cyfleoedd bywyd. Datblygu sgiliau bywyd megis datrys problemau, creadigrwydd, gwneud penderfyniadau, hunan ddisgyblaeth, sgiliau arwain a dyfalbarhad.
- Annog gwaith grŵp a chydweithio llwyddiannus. Datblygu sgiliau cymdeithasol, parchu eraill, cyfathrebu, cynhwysiant cymdeithasol, gwneud ffrindiau, gwella ansawdd bywyd.
- Cefnogi ysgolion i godi lefelau cyrhaeddiad addysgol. Gwella'r gallu i ganolbwyntio, gwrando, dilyn cyfarwyddiadau, datblygiad iaith, rhifedd, presenoldeb a chanlyniadau addysgol.
- Gwella sgiliau offerynnol, sgiliau canu, darllen cerddoriaeth, sgiliau perfformio, sgiliau dysgu trwy ymarfer, cyfle i gael blas ar gerddoriaeth a pherfformwyr newydd.
- Gwneud cysylltiadau gyda rhieni, teuluoedd a'r gymuned leol er mwyn gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth a rhoi cyfle i aelodau'r ddwy gymuned gael gwell mynediad at weithgareddau artistig.

Does yna ddim rhaglen arall (yn yr ysgol) yn debyg i Codi'r To sy'n dod i mewn i weithio GYDA'r plant.

Dyfyniad gan Bennaeth

Maen nhw wedi mwynhau'r profiadau maen nhw wedi ei gael efo Iolo, Bari a Lucy (Tiwtoriaid Codi'r To) yn ofnadwy.

Dyfyniad gan Bennaeth

Maen nhw'n fwy parod i roi cynnig ar bethau, yn llawer mwy parod

Gweledigaeth

- Y nod yw ymestyn y project ar draws yr holl flynyddoedd ysgol gyda cherddorion proffesiynol yn arwain gweithgareddau cerddorol a gwersi offerynnol ar gyfer yr ysgol gyfan.
- Bod Codi'r To yn cael ei gydnabod fel project blaenllaw ym maes 'cerddoriaeth ar gyfer newid' trwy gael adenillion cerddorol a chymdeithasol uchel ar fuddsoddiad i blant a phobl ifanc.
- Mae gan y project gysylltiadau agos â Galeri a Pontio ac mae'n cefnogi eu strategaethau datblygu cynulleidfa trwy bontio â chymunedau sy'n anodd eu cyrraedd o ran mynd i weld a chymryd rhan mewn celfyddydau traddodiadol. Mynd â cherddoriaeth fyw o ansawdd uchel i lefydd lle nad yw pobl fel arfer yn cael y cyfle i'w chlywed a meithrin cynulleidfaoedd newydd a fydd wedyn yn croesi'r trothwy ac yn dod i wrando ar gerddoriaeth fyw mewn lleoliadau eraill.
- Hyrwyddo llesiant corfforol / meddyliol a lleihau problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd.
- Cynorthwyo i herio anghydraddoldeb ac allgau cymdeithasol.
- Gwneud gweithgareddau'n hygyrch a chynnig rhywbeth sy'n ddewis gwell nag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cael dylanwad cadarnhaol a thrawsnewidiol ar unigolion, cymunedau a lle.

Dyfyniad gan Bennaeth

Mae eu gweld nhw'n cymryd rhan, heb unrhyw ffws, yn dangos yn glir bod Codi'r To yn gweithio, yn enwedig rhwng dosbarth meithrin a blwyddyn 2 - ardderchog!



Project:

Project adfywio cymunedol cyfrwng Gymraeg yw Codi'r To sy'n dod a'r rhaglen fyd-enwog El Sistema i Ogledd Cymru. Mae'n herio amddifadedd, yn codi disgywiliadau ac yn gwella bywyddau plant trwy eu cael i gymryd rhan mewn cerddoriaeth yn rheolaidd o oedran cymar, gan weithio gyda dwy ysgol gynradd, sef Ysgol Maesincla, Caernarfon ac Ysgol Glancegin, Bangor ac o fewn cymunedau yn nalgylchoedd yr ysgolion hynny.

Nod:

Mynd i'r afael ag antantais a thangyflawniad addysgol mewn dwy ardal o amddifadedd lluosog. Bod yn ysbrydoledig ac yn drawsffurfiol i blant, teuluoedd, ysgolion a chymunedau, gan newid bywyddau er gwell trwy gerddoriaeth.

THEORI NEWID:

Mae Codi'r To yn darparu'r rhaglen yn yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol, a hefyd yn darparu gweithgareddau ar ôl ysgol a gweithgareddau yn ystod y gwyliau.

Nod y rhaglen yw cefnogi'r cyfranogwyr wrth iddynt ddsygu credu yn eu gallu eu hunain a chydabod eu potensial eu hunain, a meithrin hyder, dyhead, balchder a hapusrwydd.

Bydd cyfranogwyr yn gwella eu cyfleoedd bywyd ac yn datblygu sgiliau bywyd.

Mae Codi'r To yn annog gwaith grŵp a chydweithio ac yn datblygu sgiliau cymdeithasol.

Mae Codi'r To yn cefnogi ysgolion i godi lefelau cyrhaeddiad addysgol.

MEWBYNNAU

Gweithio'n agos gyda'r ysgolion partner
Offerynnau cerdd
Cyflwyno'r rhaglen

Tiworiaid arbenigol a thiworiaid sesynol
Creadigrwydd cerddorol y cyfranogwyr
Rheoli'r rhaglen

GWEITHGAREDDAU

Samba
Crefft gerddorol
Offerynnol
Dalcroze

Sesiynau cerddorol wedi'u cynllunio'n arbennig:
Cyfranogwyr yn perfformio mewn cyngherddau
Sesiynau gyda cherddorion/cerddorfeidd sefydledig
Diwrnodau cwrrd i ffwrdd

ALLBYNNAU

Plant yn cydweithio'n dda
Ysgogi dychymyg a chreadigrwydd
Diddordeb mewn cerddoriaeth
Balchder ac ymdeimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth
Rhoi perfformiadau o ansawdd
Rhannu profiadau

CANLYNIADAU A DDISGWYLIR:

- Cynydd mewn Hyder
- Gwell ymddygiad
- Gwell sgiliau cymdeithasol
- Diddordeb mewn cerddoriaeth a bod wedi datblygu sgil
- Wedi gwneud ffrindiau newydd
- Gwella eu gallu i weithio mewn grŵp
- Datblygu sgiliau bywyd
- Cyrhaeddiad addysgol uwch
- Gwell perthynas gyda'u teuluoedd

CANLYNIADAU TERFYNOL:

- Mae'r plant yn fwy hyderus
- Mae ymddygiad wedi gwella gartref
- Mae ymddygiad wedi gwella mewn manau eraill
- Mae sgiliau cymdeithasol wedi gwella
- Mae'r berthynas gyda'r gymuned wedi gwella
- Mae'r berthynas gyda'r ysgol wedi gwella

GWERTH YCHWANEGOL

Mae Codi'r To yn meithrin dull cydweithredol ac mae hyn yn creu cysylltiadau cryfach rhwng y rhieni a'r ysgol. Gan fod y rhaglen wedi cael ei sefydlu o fewn y gymuned, mae'n helpu rhieni i greu cysylltiadau gyda rhieni a theuluoedd eraill, ac yn eu helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned ehangach.

Mae'r gymuned yn cael ei hannogi i fynychu cyngherddau yn yr ysgol, mewn theatrau lleol ac weithiau yng nghartrefi'r plant. Mae hyn yn ei dro yn datblygu rhwydweithiau sydd yn arwain at greu cysylltiadau cryfach gyda'r gymuned, ac yn annog y plant i deimlo'n rhan o'r gymuned.

Mae'r effeithiau cadarnhaol ar ymddygiad i'w teimlo nid yn unig yn yr ysgol, ond hefyd yng nghartrefi'r plant sy'n cymryd rhan. Mae hyn yn meithrin perthynas well gydag aelodau'r teulu.



Dyfyniad gan Bennaeth

Mae'n rhan o amserlen yr ysgol o wythnos i wythnos.

MEWNBYNNAU

Nid oes modd mynegi bob amser beth yw mewnbwn budd-ddeiliaid o ran punnoedd a cheiniogau. Yma rydym yn manylu ar fewnbwn y budd-ddeiliaid i'r rhaglen.

Yn gyntaf, dyma'r mewnbynnau nad ydym yn neilltuo gwerth ariannol ar eu cyfer. Heb y rhain ni fyddai'r rhaglen yn bodoli yn y lleoliad hwn:

- **DISGYBLION SY'N CYMRYD RHAN**

Mae'r disgyblion yn rhoi eu hamser, eu hymroddiad a'u brwdfrydedd i'r rhaglen.

- **TEULUOEDD**

Mae teuluoedd y plant (h.y. rhieni neu warcheidwaid) yn rhoi eu hamser i fynychu cyngherddau ac ymarferion yn yr ysgol, yn y gymuned neu mewn theatrau, ac yn cefnogi'r disgyblion yn y cartref wrth iddynt ymarfer.

- **YR YSGOL YN EHANGACH**

Mae'r ysgol yn rhoi amser yn ystod y diwrnod ysgol i'r disgyblion a'r athrawon gael cymryd rhan, ac mae'n darparu man diogel i gynnal y sesiynau.

- **Y GYMUNED**

Mae'r gymuned yn ehangach yn cyfrannu wrth i deuluoedd estynedig a ffrindiau roi eu hamser i ddod i gyngherddau a digwyddiadau yn yr ysgol ac mewn lleoliad cymunedol

Yn ail, mae'r holl gostau ariannol wedi cael eu priodoli ar gyfer y dadansoddiad hwn i sefydliad Codi'r To. Mae'r ysgolion yn cyfrannu arian parod at y rhaglen, ond nid yw hynny wedi cael ei gynnwys yma er mwyn osgoi cyfrifo dwbl.





Dyfyniad gan Bennaeth

Does dim athrawon cerdd eraill yn dod i mewn i'r ysgol i ddysgu'r plant i chwarae unrhyw offeryn.

Mae Codi'r To yn elusen gofrestredig sy'n cael ei hariannu â grant, ac felly mae eu cyfrifon ar gael yn gyhoeddus wedi eu rhestru dan Sistema Cymru Codi'r To (1159046) ar Gofrestr Elusennau'r Deyrnas Unedig. Cawsom fynediad llawn at y cofnodion hyn ac rydym wedi cyfrifo ffigwr ar gyfer y mewnbwn ariannol at gostau rhedeg y rhaglen o £167,639 y flwyddyn yn seiliedig ar ddadansoddiad syml:

Tabl 1 Costau Rhedeg Codi'r To, 2017/18

CYFLOGAU	£107,989
TEITHIO	£4,500
OFFERYNNAU	£5,000
HYFFORDDIANT	£2,000
RHENT, MARCHNATA A DEUNYDDIAU SWYDDFA	£12,600
GWASANAETHAU ALLANOL (AD)	£14,500
YSWIRIANT	£1,200
CYFRIFYDD	£2,100
COSTAU YMCHWIL A DATBLYGU	£8,750
GWEITHGAREDDAU Y TU ALLAN I ORIAU YSGOL	£9,000
CYFANSWM	£167,639

Gan mai dim ond mewn dau leoliad y mae'r rhaglen yn weithredol, doedd dim angen addasu'r ffigyrau hyn ar gyfer lleoliad na graddfa.

CANLYNIADAU, TYSTIOLAETH A PHROCSIS

Fe wnaethom nodi'r canlyniadau posibl ar gyfer y budd-ddeiliaid trwy archwilio'r dystiolaeth bresennol, trwy siarad gyda'r tîm rheoli a staff Codi'r To, a thrwy siarad â rhieni'r disgyblion sy'n cymryd rhan ynghyd â'r ysgolion.

Llenwodd y plant holiaduron, a gofynnwyd i athrawon lenwi holiaduron ynghylch ymddygiad y plant yn yr ystafell ddosbarth.

Fe ofynnem i rieni lenwi holiaduron byr amdanynt eu hunain a'u plant sy'n rhan o raglen Codi'r To er mwyn cael clywed am rai o'r canlyniadau. Llenwyd 50 o holiaduron i gyd. Rydym wedi trosi'r atebion yn ganrannau yn y dadansoddiad i gynrychioli 282 o gyfranogwyr a 282 o rieni, ac rydym wedi craffu ar wahanol senarios yn y dadansoddiad sensitifrwydd. Gellir gweld nifer y canlyniadau yn y Map Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (atodiad).

Dyfyniad gan Bennaeth

Mae Codi'r To'n golygu bod y plant yn cael ymwneud â diwylliant Cymru.


Defnyddiom 'brocsis ariannol' i roi gwerth posibl i'r canlyniadau yr ydym wedi eu nodi. Caiff procsis ariannol eu defnyddio mewn dadansoddiadau o'r fath i roi gwerth ar ganlyniadau anniriaethol, ac yn y dadansoddiad hwn rydym wedi nodi gwasanaethau y gellid bod wedi eu comisiynu pe na bai Codi'r To ar gael er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau niweidiol, neu mewn rhai achosion, gwerth y canlyniadau fel y maent wedi cael eu nodi mewn astudiaethau adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad eraill.

Tabl 2 Canlyniadau a Thystiolaeth

BUDD-DDEILIAD	ALLBWN	CANLYNIAD	TYSTIOLAETH
DISGYBLION SY'N CYMRYD RHAN	MYNYCHU SESIYNAU	RHAGOR O HYDER GWELL YMDDYGIAD MEWN MANNAU ERAILL (YSGOL) RHAGOR O DDIDDORDEB MEWN CERDDORIAETH	92% O'R RHIENI YN CYTUNO 84% O'R RHIENI YN CYTUNO PENNAETH YN ADRODD
TEULUOEDD	282 O BLANT YN CYMRYD RHAN TEULUOEDD YN MYNYCHU CYNGHERDDAU YN YR YSGOL TEULUOEDD YN MYNYCHU CYNGHERDDAU YN Y GYMUNED AC MEWN THEATRAU LLEOL	IGWELL YMDDYGIAD YN Y CARTREF GWELL PERTHYNAS GYDA'R YSGOL TEIMLO'N FWY O RAN O'R O'R GYMUNED	60% O'R RHIENI YN CYTUNO ROEDD 70% O'R RHIENI'N TEIMLO BOD GANDDYNT BERTHYNAS AGOSACH A'R YSGOL ROEDD 62% O'R RHIENI'N TEIMLO'N FWY O RAN O'R GYMUNED
YR YSGOL YN EHANGACH	GWELL YMDDYGIAD CYFFREDINOL A CHYD-DYNNU YN YR YSTAFELL DDOSBARTH BYDD Y PLANT YN CYD-DYNNU'N WELL A'U CYD-DDISGYBLION	GWELL YMDDYGIAD MEWN MANNAU ERAILL (YSGOL) SGÔR IS YN YR HOLIADURON CRYFDERAU AC ANAWSTERAU (MESUR YMDDYGIAD PLANT)	84% O'R RHIENI YN CYTUNO
Y GYMUNED	PLANT YN RHAN O GLYBIAU AR ÔL YSGOL A CHLYBIAU GWYLIAU	LLAI TEBYGOL O YMDDWYN GWRTHGYMDEITHASOL	MAE CODI'R TO YN COFRESTRU GWELL YMDDYGIAD MEWN MANNAU ERAILL

Tabl 3 Canlyniadau a Phrocsis

BUDD-DDEILIAD	CANLYNIAD	PROCSI	GWERTH
DISGYBLION SY'N CYMRYD RHAN	RHAGOR O HYDER GWELL YMDDYGIAD MEWN MANNAU ERAILL (YSGOL) RHAGOR O DDIDDORDEB MEWN CERDDORIAETH	HYDER A HUNAN-BARCH RHAGLEN DDYSGU EMOSIYNOL WEDI EI LLEOLI YN YR YSGOL MYND I'R CLWB IEUENCTID	£238 Y PLENTYN £132 Y PLENTYN £2,300 Y PLENTYN
TEULUOEDD	GWELL YMDDYGIAD YN Y CARTREF GWELL PERTHYNAS GYDA'R YSGOL TEIMLO'N FWY O RAN O O'R GYMUNED	CEFNOGI TEULUOEDD I ROI CYMORTH SWYDDOG CYSWLLT RHWNG Y TEULU A'R YSGOL TEIMLO EU BOD YN PERTHYN I'R GYMDOGAETH	£711 Y TEULU £10.74 AM BOB AWR O GYSWLLT £3935 Y PEN
YR YSGOL YN EHANGACH	GWELL YMDDYGIAD MEWN MANNAU ERAILL (YSGOL) SGÔR IS YN YR HOLIADURON CRYFDERAU AC ANAWSTERAU (MESUR YMDDYGIAD PLANT)	RHAGLEN YMATEBOL YN Y DOSBARTH RHAGLEN YMDDYGIAD CADARNHAOL YSGOL GYFAN	£149 Y DOSBARTH £419 YR YSGOL
Y GYMUNED	LLAI TEBYGOL O YMDDWYN YN WRTHGYMDEITHASOL	DIM PROBLEM GYDAG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL	£6714



Dyfyniad gan Bennaeth



Mae'n anodd herio ymgysylltiad rhieni yma - o ran nosweithiau rhieni mae hynny wedi gwella'n sylweddol. Mae ganddyn nhw fwy o ddi-ddordeb yng ngwaith eu plant.



EFFAITH

Aethom ati'n ofalus i amcangyfrif unrhyw ffactorau eraill a allai fod wedi dylanwadu ar ganlyniadau'r rhaglen, ac rydym yn defnyddio'r termau priodoliad, llwyth, dadleoliad a gollyngiad er mwyn addasu ein canfyddiadau yn unol â hynny.

Mae **Priodoliad** yn ystyried efallai nad Codi'r To yn unig sy'n gyfrifol am y newidiadau neu'r canlyniadau sy'n cael eu datgan yn y dadansoddiad. Mae'r cymunedau lle cynhelir y rhaglen Codi'r To yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'r plant dan sylw yn debygol o fod yn mynd i glybiau cymunedol eraill, ac mae 58% o'r rhieni a holwyd wedi cadarnhau hynny. Mae'r ysgolion hefyd wedi cadarnhau fod clybiau'n cael eu cynnal yn ystod amser egwyl ac ar ôl ysgol, ac felly amcangyfrifir bod priodoliad canlyniadau'r plant, h.y. pwy arall a gyfrannodd at y canlyniadau, yn 40% - gan awgrymu y gallai 40% o'r newid fod wedi ei gynhyrchu gan weithgareddau eraill.

Gellir gweld yr holl briodoliadau yn y Map Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (atodiad).

Mae **Llwyth** yn gadael inni awgrymu faint o'r newid fyddai wedi digwydd beth bynnag, heb fodolaeth rhaglen Codi'r To - er enghraifft, mae llwyth o 40% yn awgrymu y byddai 40% o'r newid a arsylwyd wedi digwydd beth bynnag, ac mae'r ffigyrau hynny hefyd wedi eu nodi yn y Map Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (atodiad).

Defnyddir **Dadleoliad** wrth ddadansoddi Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad i drafod sut mae canlyniadau'r rhaglen neu'r ymyriad sy'n cael ei asesu wedi effeithio ar ganlyniadau eraill mewn meysydd eraill - er enghraifft, efallai mai effaith rhaglen i leihau troseddu mewn un ardal fyddai symud y gweithgaredd i gymuned arall yn hytrach na rhwystro'r ymddygiad. Nid oeddem o'r farn fod y canlyniadau a gynhyrchwyd gan y rhaglen hon yn cyfiawnhau gwneud dadansoddiad dadleoli, felly rydym yn rhoi'r gyfradd dadleoli ar 0%.

Mae **Gollyngiad** yn edrych ar ganlyniadau y credwn y byddant yn cael effaith ar fudd-ddeiliaid am fwy na blwyddyn, ond yn gwanhau gydag amser. Bydd rhai o'r plant sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon yn cymryd rhan am fwy na dwy flynedd tra byddant yn yr ysgol, a bydd cynyddu eu hyder, er enghraifft, yn parhau i fod o fudd i'r plentyn ar ôl iddynt orffen cymryd rhan yn y rhaglen. Gellir gweld y data gollyngiad yn y Map Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (atodiad).

Dyfyniad gan Bennaeth

Mae 'na ryw fath o undod mewn ffordd



Dyfyniad gan Bennaeth

Mae rhieni dod i'r ysgol yn amlach diolch i Codi'r To.

ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD (ACAF)

Rhaid addasu'r gwerth sy'n cael ei gynhyrchu gan y Map Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad er mwyn rhagweld beth fydd y gwerthoedd hynny yn y dyfodol. Rydym yn gostwng y gwerthoedd yr ydym yn amcangyfrif eu bod am barhau am fwy na blwyddyn gan 3.5% fel y mae Llyfr Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2018) yn ei argymhell.

Caiff gwerth yr Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ei fynegi fel cymhareb, a chaiff ei chyfrifo trwy rannu gwerth yr effaith gyda gwerth y buddsoddiad

CYFANSWM Y GWERTH PRESENNOL A GYNHYRCHWYD

ACAF = -----

CYFANSWM Y MEWNBYNNAU

Cyfanswm gwerth yr effeithiau
a grëwyd gan Codi'r To bob blwyddyn **£390,722.26**

Cyfanswm Gwerth Presennol
Codi'r To (gyda gostyngiadau
am hyd at 3 blynedd) **£1,120,878.25**

Y Gwerth Presennol Net **£953,239.25**

Cyfanswm y Mewnbwn bob blwyddyn **£167,639.00**

1,120,878.25


ACAF ----- = £6.69

167,639.00

Mae hyn yn golygu cymhareb o ran Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o **£6.69: £1** - am bob punt a fuddsoddwyd yn rhaglen Codi'r To, cynhyrchir gwerth £6.69 o werth cymdeithasol.

Dyfyniad gan Bennaeth

Fe drefnon ni daith
i weld Cerddorfa
Ffilharmonig Lerpwl
- roedd rhaid i ni
drefnu dau fws yn
y diwedd!



DADANSODDIAD SENSITIFRWYDD

Mae dadansoddiad sensitifrwydd yn gadael i ni brofi gwahanol senarios yn yr ymchwil. Bydd newid elfennau yn y Map Effaith yn effeithio ar y gymhareb Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, ac mae'n ein galluogi i asesu pa ragdybiaethau a wnaethom ni sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y ffigwr terfynol.

Cyfrifwyd mai ffigwr achos sylfaen yr Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yw £6.69: £1. Wrth newid ein rhagdybiaethau cawsom ystod o ffigyrau posibl, ac rydym wedi rhestru rhai ohonynt yma:

Tabl 4 Dadansoddiad Sensitifrwydd


EITEM	ACHOS SYLFAEN	ACHOS NEWYDD	ACAF
PLANT MWY HYDERUS	40% LLWYTH 40% PRIODOLIAD	60% LLWYTH 20% PRIODOLIAD	£6.57 £6.80
RHIENI'N TEIMLO'N RHAN O'R GYMUNED	40% LLWYTH 60% PRIODOLIAD	60% LLWYTH 30% PRIODOLIAD	£5.68 £8.95
RHIENI'N TEIMLO EU BOD YN FWY O RAN O'R YSGOL	20% LLWYTH	50% LLWYTH	£8.94
PLANT YN YMDDWYN YN WELL	40% PRIODOLIAD	60% PRIODOLIAD	£6.63
PLANT YN TEIMLO'N FWY HYDERUS	260 O DDISGYBLION	130 O DDISGYBLION	£6.51
RHIENI'N TEIMLO'N RHAN O'R GYMUNED	175 O RIENI	88 O RIENI	£5.19
RHIENI'N TEIMLO'N AGOSACH AT YR YSGOL	PROCSI: SWYDDOG CYSWLLT TEULU FESUL AWR	DIM SWYDDOG CYSWLLT TEULU	£5.63
HYD	POB CANLYNIAD YN PARA 1 - 3 BLYNEDD	POB CANLYNIAD YN PARA BLWYDDYN	£4.59
PRIODOLIAD	YSTOD O 20 – 40%	50% O'R PRIODOLIAD	£7.89
LLWYTH	YSTOD O 20 – 50%	50% O'R LLWYTH	£5.64

* Llwyth - beth fyddai wedi digwydd beth bynnag * Priodoliad - faint o newid a achoswyd gan raglenni eraill, ac ati.

Ni chafodd y ffigyrau a gynhyrchwyd ar gyfer yr Ysgol yn Ehangach eu haddasu i wneud dadansoddiad sensitifrwydd gan fod y ffigyrau ariannol yn gymharol fach.

Yr eitem fwyaf sensitif i newid oedd 'rhieni'n teimlo'n rhan o'r gymuned'. Roedd hwn yn brocsi ariannol sylweddol - fe ddefnyddiom y gwerth ar gyfer oedolyn sy'n teimlo ei fod yn perthyn i'r gymdogaeth, sef £3935 y pen, bob blwyddyn.

Ar ôl gwneud dadansoddiad sensitifrwydd, rydym yn cyfrifo y gallai Codi'r To greu gwerth cymdeithasol ar draws ystod o £4.59 i £8.95 am bob punt sy'n cael ei buddsoddi:





Dyfyniad gan Bennaeth

Dydy'r system addysg ddim wedi bod yn garedig iawn efo rhai o'r rhieni - mae mentro dros drothwy'r drws yn beth mawr, mawr i rai ohonyn nhw

CASGLIAD

Cafodd Codi'r To ei datblygu fel rhaglen mewn ysgolion er mwyn rhoi cyfle i blant a chymunedau mewn ardaloedd difreintiedig yng Ngogledd Cymru ddatblygu a chysylltu trwy gyfrwng cerddoriaeth a mynd i'r afael ag anfantais a thangyrhaeddiad addysgol.


Mae'r dadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad hwn wedi bod yn ddull effeithiol o ddangos yr effaith y gall y rhaglen ei chael ar y disgyblion, eu teuluoedd, yr ysgol yn ehangach a'r gymuned.

Mae Codi'r To yn creu gwerth cymdeithasol sylweddol o rhwng £4.59 a £8.95 am bob punt sy'n cael ei buddsoddi, ac yn seiliedig ar ein rhagdybiaethau a'n hymchwil, rydym yn amcangyfrif bod achos sylfaenol o ran Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o £6.69: £1, sy'n golygu am bob punt sy'n cael ei buddsoddi fod gwerth cymdeithasol o £6.69 yn cael ei greu.

Diddorol iawn oedd canlyniadau'r gwerth cymdeithasol a grëwyd fesul grŵp budd-ddeiliaid, ac maent yn dangos mai'r ganran uchaf yw'r gwerth cymdeithasol a grëwyd ar gyfer rhieni, oherwydd y gwerth sydd ynghlwm â bod rhieni'n teimlo'n rhan o'r gymuned.

Ffigwr 1 – Gwerth Cymdeithasol fesul Budd-ddeiliad

Gwerth Cymdeithasol fesul Budd-ddeiliad



Mae'r gwerthusiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad hwn o raglen Codi'r To yn dangos bod y rhaglen hon yn cynnig gwerth cymdeithasol cadarnhaol i blant, teuluoedd, ysgolion a chymunedau.

Dyfyniad gan Bennaeth

Does byth sedd wag yn y cyngherddau yn y theatrau

ATODIAD 1: MAP EFFAITH

BUDD-DDEILIAD	MEWNBWN	CANLYNIAD A NIFER	LLWYTH %	PRIODOLIAD %	GOLLYNGIAD %	EFFAITH	CYFRIFO ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD			
		GWERTH PROSIAU Y FLWYDDYDYN AR GYFER Y CYFARWY-DDWR	BETH FYDDAI WEDI DIGWYDD HEB CODI'R TO?	PWY ARALL GYFRANNODD AT Y NEWID?	GOLLYNGIAD	GOLLYNGIAD DROS Y BLYNYDDOEDD?	Y FLWYDDYDYN BRESENNOL	BLWYDDYDYN 1	BLWYDDYDYN 2	BLWYDDYDYN 3
DISGYBLION SYN CYMRYD RHAN	£0	260 O BLANT YN FWY HYDERUS	40%	40%	50%	£22,277	£22,277	£22,277	£11,138	£5,569
		YMDYGIAD 260 O BLANT YN WELLYN Y CARTREF AC YN YR YSGOL	40%	40%	60%	£12,355	£12,355	£12,355	£4,942	£0
		282 O BLANT YN MWYNHAU CERDDORIAETH	40%	60%	40%	£155,659	£155,659	£155,659	£93,395	£56,037
TEULUOEDD	£0	YMDYGIAD 113 O BLANT YN WELLYN Y CARTREF	50%	30%	60%	£28,127	£28,127	£28,127	£11,251	£0
		197 O RIENI A GWELL PERTHYNAS GYDA'R YSGOL	20%	20%	40%	£1,354	£1,354	£1,354	£812	£487
		175 O RIENI YN TEIMLO EU BOD YN FWY O RAN O'R GYMUNED	40%	60%	30%	£165,270	£165,270	£165,270	£115,689	£80,982
YR YSGOL YN EHANGACH	£0	GWELL YMDYGIADA CHYD-DYNNU MEWN 8 DOSBARTHADAU	40%	30%	60%	£500	£500	£500	£200	£0
		GWELL PERTHYNAS RHWNG Y DISGYBLION MEWN 2 YSGOL	40%	40%	60%	£347	£347	£347	£139	£55
Y GYMUNED	£0	PLANT YN LLAI TEBYGOL O YMDWYN YN WIRTHGYMDEITHASOL 2 GYMUNED	40%	40%	40%	£484	£484	£4,834	£1,906	£0
CODI'R TO	£167,639	282 O DDISGYBLION YN YMMNEUD A'R RHAGLEN	0%	0%	0%	£0	£0	£0	£0	£0
CYFANSWM	£167,639					£386,372	£391,722	£390,722	£239,472	£143,132

Gwerth Presennol Pob Blwyddyn	£391,772	£377,509	£223,550	£129,096
Cyfanswm Gwerth Presennol (GP)				£1,120,878
Gwerth Presennol Net (GP Llial Y Buddsoddiad)				£953,239
Gwerth Ademiillion Cymdeithasol Yn Ôl Y Swm A Fuddsoddiad				£6.69
				CYMHAREB ACAF £1: £6.69



CYFEIRIADAU

- Arts Professional (2017) 'Make music education part of school inspections', Welsh committee told
<https://www.artsprofessional.co.uk/news/make-music-education-part-school-inspections-welsh-committee-told>
(cyrchwyd Tachwedd 2017)
- Ashley, M. (2002) Singing, gender and health: Perspectives from boys singing in a church choir. *Health Education*, 102(4), 180–186.
- Broh, B. A. (2002) Linking extracurricular programming to academic achievement: Who benefits and why? *Sociology of Education*, 75, 69–95
- Swyddfa'r Cabinet (2009) A guide to social return on investment. Llundain: Swyddfa'r Trydydd Sector, Swyddfa'r Cabinet.
- Cyfrifiad (2011) Cyfrifiad y DU 2011
<http://www.ukcensusdata.com> (cyrchwyd Tachwedd 2017)
- Plant yng Nghymru (2016) Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru, 2016 file:///C:/Users/ems249/AppData/Local/Temp/Child-and-Family-Survey-Report-2016-Final-CYMRAEG.compressed.pdf
(cyrchwyd Tachwedd, 2017)
- Douglas, S. and Willatts, P. (1994) The relationship between musical ability and literacy skill. *Journal of Research in Reading*, 17, 99–107.
- Estyn (2012) Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion
<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i%20afael%20%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012.pdf>
(cyrchwyd Tachwedd 2017)
- Estyn (2013) Adroddiad Arolygu Ysgol Glancegin
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612116?_ga=2.118900301.596014588.1529510302-131520294.1529510302
- Estyn (2013) Adroddiad Arolygu Ysgol Maesincla
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6613005?_ga=2.118900301.596014588.1529510302-131520294.1529510302
- Garnham, L., Campbell, A. and Harkins, C. (2011). Evaluation of Sistema Scotland's 'Big Noise' Sistema Scotland.
<http://www.gov.scot/Resource/Doc/345409/0114922.pdf> (cyrchwyd Tachwedd 2017)
- Garnham, L.M. and Campbell, A. (2016) 'It makes me feel happy and joyful': the evaluation of arts-based social interventions in public health. *Journal of Public Health*, 38(4), tt.e589-e591.
- Garnham, L.M. and Harkins, C. (2017) 'Transforming lives through music' as a public health intervention: further reflections on our evaluation of Sistema Scotland. *Journal of Public Health*, tt.1-3.

- Hallam, S. (2010) The power of music: Its impact on the intellectual, social and personal development of children and young people. *International Journal of Music Education*, 28(3), pp.269-289.
- Harkins, C., Garnham, L., Campbell, A. and Tannahill, C. (2016) Hitting the right note for child and adolescent mental and emotional wellbeing: a formative qualitative evaluation of Sistema Scotland's "Big Noise" orchestral programme. *Journal of Public Mental Health*, 15(1), pp.25-36.
<http://www.emeraldinsight.com/doi/pdfplus/10.1108/JPMH-11-2015-0047>
- Hirt-Mannheimer, J. (1995) Music big for little folks. *Teaching Music*, 3(2), 38–39
- Llanfawr Estyn (2016) Ysgol Llanfawr Report <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Ysgol%20Llanfawr%20en.pdf> (accessed November 2017)
- Moreno, S., & Besson, M. (2006) Musical training and language-related brain electrical activity in children. *Psychophysiology*, 43, 287–291
- Schlaug, G., Norton, A., Overy, K., & Winner, E. (2005) Effects of music training on the child's brain and cognitive development. *Annals of the New York Academy of Science*, 1060, 219–230
- Senedd (2016) Funding for and access to music education <http://senedd.assembly.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16620> (accessed November 2017)
- The Sutton Trust (2014) Research Brief: Extra-curricular Inequality <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/09/Extracurricular-inequality.pdf> (accessed November 2017)
- The Warwick Commission (2015) Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth https://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/finalreport/warwick_commission_final_report.pdf (accessed November 2017)
- Treasury, H.M.S. (2018) The green book: appraisal and evaluation in central government
- University of Sussex (2017) Teachers blame EBacc for decline in music student numbers <http://www.sussex.ac.uk/broadcast/read/39525> (accessed 16 May, 2018)
- WIMD (2014) Wales Index of Multiple Deprivation [Maps] <http://wimd.wales.gov.uk> (accessed November 2017)
- Wrexham Borough Council (2017) Difficult Decisions 2018-2020 http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/budget/2018-19/difficult_decisions_2018-20.pdf (Accessed November, 2017)





Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards: Mae Rhiannon yn Athro Economeg Iechyd ac yn Gyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME). Graddiodd o Brifysgol Cymru, Aberystwyth, Prifysgol Calgary, Canada, a Phrifysgol Efrog. Roedd Rhiannon yn Gymrawd Harkness Cronfa'r Gymanwlad mewn Polisi Iechyd, gan dreulio blwyddyn yn yr Unol Daleithiau rhwng 2004 a 2005. Mae hi'n Uwch Ymchwilydd gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn Aelod er Anrhydedd o Gyfadran Iechyd y Cyhoedd. Mae Rhiannon yn Gyfarwyddwr Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHESS), sy'n rhan annatod o'r ymchwil a wneir yng Nghymru i iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ganddi ddiddordeb penodol ym methodoleg gwerthuso economaidd ynghyd ag mewn treialon iechyd y cyhoedd ac ymyriadau seicogymdeithasol



Eira Winrow: Swyddog Cefnogi Project Ymchwil yn CHEME yw Eira Winrow. Mae ganddi BA (Anrh) Dosbarth 1af mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol, ac MA mewn Polisi, Ymchwil a Gwerthuso. Ynghyd â'i gwaith, mae Eira wrthi'n gwneud PhD mewn Economeg Iechyd, gyda ffocws ar Dai ac Iechyd yn y Deyrnas Unedig. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys Economeg Iechyd mewn perthynas â Thai, Trais yn y Cartref, ac Ymyriadau Cymdeithasol, ac Ymchwil Ansoddol i Economeg Iechyd.

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau Neuadd Ardudwy, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ Ffôn: 01248 382153

 cheme@bangor.ac.uk

 @CHEMEBangor

